Neuadd Goffa CRICCIETH Memorial Hall

Gŵyl Criccieth Festival

CYNGERDD / CONCERT

i ddathlu penblwydd y côr yn 40ain oed

to celebrate the choir's 40th birthday

gan / by

CÔR MEIBION

DWYFOR

MALE VOICE CHOIR

gyda'n gwesteion arbennig

with our special guests

TEULU HENDRE CENNIN

HENDRE CENNIN FAMILY

Gwener 19 Mehefin 2015, 7.30yh

Friday 19 June 2015, 7.30pm

Côr Meibion Dwyfor

Cyfarwyddwr Cerdd	**-**	***Buddug Roberts***
Cyfeilyddes	**-**	***Alison Edwards***

Y mae deugain mlynedd wedi carlamu heibio ers pan sefydlwyd Côr Meibion Dwyfor yn 1975 fel Parti Cerdd Dant ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor a gynhaliwyd yma yng Nghricieth. Sefydlydd ac arweinydd cyntaf y côr oedd D. G. Jones (Selyf), Garn Dolbenmaen, cyn i Gerallt ei fab hynaf, ac yna Alun Llwyd ei fab ieuengaf afael yn yr awenau yn eu tro. I'w dilyn hwythau daeth John Eifion o Hendre Cennin i arwain gan droi'r parti yn gôr, cyn iddo yntau gael ei ddilyn gan Buddug Roberts sy'n arwain y côr bellach ers un mlynedd ar hugain.

Wrth i Selyf gyfeirio at gyfnod sefydlu Meibion Dwyfor fe nododd mai i Melfyn Jones, Hendre Cennin y gofynnodd o gyntaf a fyddai'n dod yn aelod. Mae'r ffaith honno ynddi ei hun yn rheswm dros wahodd ei blant a'i wyrion yntau ac Ann atom heno i nodi'r garreg filltir hon yn ein hanes ac yn cloi cylch wrth i ni gofio am Melfyn a chyn-aelodau eraill a gollwyd dros y blynyddoedd. Y mae hefyd yn gyfle i gyd-ddathlu efo aelodau Teulu Hendre Cennin y bu eu cysylltiad â'r côr yn un mor glòs a gwerthfawr gydol y blynyddoedd.

Mae'n braf cofio'n ôl a diolch i Ann, priod Melfyn am ei pharodrwydd i gyfrannu i gyngherddau a nosweithiau llawen efo'r Parti yn ystod y dyddiau cynnar, i John Eifion am ei saith mlynedd yn arwain y côr rhwng 1987 a 1994, ac i'w chwaer Helen Medi am ei dwy flynedd hithau yn gyfeilyddes rhwng 1991 a 1993.

Heno, felly, mae'n bleser ac yn fraint i'r Côr rannu llwyfan ein dathliad yn ddeugain oed efo'r teulu nodedig yma. Diolch yn fawr a chroeso i Eifion, Carol, Helen, Glesni, Lois, Anest, John, Enlli, Alaw, Lea, Elgan, Beca, Cadi, Non a Dei. Llond llwyfan o enillwyr cenedlaethol.

Côr Meibion Dwyfor

Musical Director	**-**	***Buddug Roberts***
Accompanist	**-**	***Alison Edwards***

Côr Meibion Dwyfor was established in 1975 as a Cerdd Dant Party to compete at the Bro Dwyfor National Eisteddfod held here in Criccieth. The founder conductor was D. G. Jones (Selyf), Garn Dolbenmaen who was succeeded by Gerallt, his elder son. Then Alun Llwyd, his younger son subsequently took over that role. They were followed as conductor by John Eifion of Hendre Cennin, one of the artistes of tonight's concert, who turned the party into a choir. His successor was Buddug Roberts who has been the choir's musical director for the past twenty one years.

When Selyf once referred to the early days of the choir he noted that the very first member was Melfyn Jones, Hendre Cennin. This fact alone is reason enough to invite Melfyn's wife Ann and their children and grandchildren to celebrate with us tonight the choir's 40th birthday. As we remember Melfyn and other former members no longer with us, this is also an occasion to celebrate with the musically gifted Hendre Cennin Family, whose connection and commitment to the choir has been so valued over the years.

As we reminisce, we are grateful to Ann, Melfyn's wife for her willingness to take part in many "noson lawen" and concerts during those early years ; to John Eifion for his seven years between 1987 and 1994 as choir conductor, and his sister Helen Medi for her couple of years, 1991 to 1993 as accompanist.

Therefore it is a great pleasure and privilege tonight for the Choir, on its 40th birthday, to share its celebratory stage with this talented family. Thank you and welcome to Eifion, Carol, Helen, Glesni, Lois, Anest, John, Enlli, Alaw, Lea, Elgan, Beca, Cadi, Non and Dei. A stage full of national winners.

www.cormeibiondwyfor.cymru